Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penygaer

**Rhodfa Bryndulais**
**Llanelli**
**SA14 8RS**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Penygaer

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Penygaer |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 212 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 157 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 35 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 35.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 36.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2011 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/11/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/03/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant cynhwysol yn Ysgol Gynradd Penygaer lle mae disgyblion yn rhyngweithio’n dda ag oedolion ac â’i gilydd. Maent yn gwrtais a moesgar, ac mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Mae staff yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a’u hymddygiad eu hunain, ac mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at eu hymagwedd frwdfrydig at fywyd yr ysgol. Mae’r diwylliant cynhwysol hwn yn helpu disgyblion i fagu hyder a datblygu eu hunan-barch, tra’n parchu safbwyntiau a theimladau pobl eraill hefyd.

Mewn ychydig o feysydd y cwricwlwm, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau, er enghraifft mewn llafaredd a mathemateg. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae’r cynnydd a wnânt yn anghyson. O ganlyniad, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn datblygu eu medrau’n ddigon da nac yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Caiff hyn effaith negyddol ar eu gwaith mewn meysydd eraill o’r cwricwlwm.

Er bod yr ysgol yn dechrau datblygu ei chwricwlwm yn briodol, mae cynnydd tuag at weithredu’r Cwricwlwm i Gymru yn araf. Mae athrawon yn defnyddio ystod gynyddol o ymweliadau ac ymwelwyr i ymestyn profiadau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw cwricwlwm yr ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau yn systematig dros gyfnod.

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn amrywiol. Yn aml, mae disgwyliadau athrawon o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel, a chyflymdra’r dysgu yn araf, ar y cyfan. Mae athrawon yn strwythuro gweithgareddau yn rhy dynn yn rheolaidd ac yn gor-gyfarwyddo dysgu’r disgyblion. Mae hyn yn rhwystro gallu disgyblion i fod yn ddysgwyr gwydn ac annibynnol sy’n gallu gweithio pethau allan drostynt eu hunain. Nid yw adborth athrawon i ddisgyblion bob amser yn eu helpu i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith.

Dros gyfnod, nid yw arweinwyr wedi monitro gwaith yr ysgol yn ddigon trylwyr. Mae hyn yn golygu nad ydynt wedi mynd i’r afael â diffygion mawr yng ngwaith yr ysgol nac wedi rhoi camau gweithredu ar waith i fynd i’r afael â nhw. Nid yw gweithgareddau hunanwerthuso a gwella, yn ogystal â chyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff, yn canolbwyntio’n fuddiol ar wella ansawdd yr addysgu a’r dysgu. Mae’r awdurdod lleol a’r corff llywodraethol yn cydnabod yr heriau sy’n wynebu’r ysgol ac yn darparu cymorth ychwanegol. Mae aelodau o gorff llywodraethol yr ysgol yn awyddus a brwdfrydig, ond nid ydynt wedi gallu darparu cymorth a her effeithiol i’r ysgol o ganlyniad i orddibyniaeth ar wybodaeth gan arweinwyr am ansawdd gwaith yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel fel bod gan arweinwyr y medrau angenrheidiol i ysgogi gwelliant yn yr ysgol

A2 Sicrhau bod prosesau gwerthuso yn canolbwyntio'n glir ar ansawdd yr addysgu a safonau disgyblion

A3 Gwella addysgu ac asesu ar draws yr ysgol

A4 Gwella'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol

A5 Mynd i'r afael â'r broblem ddiogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen mesurau arbennig o ran yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn. Mae hyn yn cynnwys disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn gwneud digon o gynnydd yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth oherwydd diffyg her mewn gweithgareddau.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwrando ar oedolion ac ar ei gilydd yn briodol, ac yn ymateb yn briodol i oedolion ac i'w gilydd. Maent yn gofyn cwestiynau meddylgar ac ystyrlon sy'n datblygu syniadau ac yn gwneud cyfraniadau effeithiol sy'n ystyried safbwyntiau disgyblion eraill. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn mynegi eu hunain yn glir, er enghraifft pan fydd disgyblion yn trafod y stori y mae eu cyd-ddisgyblion yn ei pherfformio ar lwyfan y dosbarth. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn mynegi eu syniadau'n briodol ac yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad diweddar â San Steffan, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn dadlau manteision ac anfanteision yfed diodydd egni.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau darllen. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn dysgu seiniau llythrennau yn gyflym, ac yn cyfuno'r seiniau hyn gyda'i gilydd yn briodol wrth ddarllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, ac yn hapus i fynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd gydag amrywiaeth o strategaethau. Yn y dosbarthiadau hŷn, mae ychydig o ddisgyblion yn enwi eu hoff awduron ac yn trafod eu harddull â dealltwriaeth ac eglurder perthnasol. Er enghraifft, mae disgyblion yn disgrifio'r gymeriadaeth a ddefnyddir gan Charles Dickens mewn ychydig o'i nofelau. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd Blwyddyn 6, mae mwyafrif ohonynt yn ddarllenwyr medrus a hyderus, sydd wedi'u harfogi'n dda i werthfawrogi testunau heriol. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau diweddar yn eu medrau darllen sylfaenol, nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau darllen ar lefel uwch i elwa ar bob maes o'r cwricwlwm yn ddigon da.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau gwella'u gallu i ysgrifennu'n greadigol ac at ystod o ddibenion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn effeithiol, ac mae llawer o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd o greu marciau i ffurfio llythrennau, geiriau a brawddegau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n greadigol ar ffurf stori sylfaenol. Yn gyffredinol, mae disgyblion hŷn yn cymryd gofal i gyflwyno'u gwaith yn ddestlus ac yn ymfalchïo yn eu cyflwyniad. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu'n graff mewn amrywiaeth o gyd-destunau, ac erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ystod o ddibenion. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol, yn enwedig o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu estynedig i gyfoethogi eu gwaith yn holl feysydd y cwricwlwm.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol sylfaenol yn briodol. O oedran cynnar, mae disgyblion yn caffael ystod ddefnyddiol o fedrau mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan fwyafrif ohonynt ddealltwriaeth addas o ffeithiau rhif i 100. Maent yn adnabod siapiau, yn defnyddio arian wrth iddynt chwarae ac yn datblygu hyder mewn dweud yr amser. Mae mwyafrif o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn gweithio'n dda gyda phedair rheol rhif ac yn datblygu medrau priodol gan ddefnyddio siâp, gofod a mesur. Yn ddiweddar, mae lleiafrif o ddisgyblion wedi dechrau cymhwyso'u medrau rhifedd datblygol yn bwrpasol i ddatrys problemau, er enghraifft wrth drafod cymedr, canolrif a modd tymereddau mewn gwledydd eraill. Mae lleiafrif ohonynt yn disgrifio eu meddwl a'u rhesymu'n dda, ac yn esbonio sut maent wedi dod i gasgliadau, er enghraifft wrth gyfrifo'r codiadau cyflog canrannol mewn amgylchedd ysgol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso ac yn deall sut i ddefnyddio'u medrau rhifedd yn bwrpasol mewn sefyllfaoedd bob dydd, ac nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Prin yw'r disgyblion sy'n gwneud cynnydd priodol mewn dysgu Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau dosbarth gan yr athro. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn ateb cwestiynau ag atebion syml yn ystod trafodaethau gydag athrawon a gyda'i gilydd. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal agwedd gadarnhaol at siarad Cymraeg, nid yw digon o ddisgyblion yn meithrin eu gwybodaeth am y Gymraeg yn systematig.

Ar draws yr ysgol, mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu a defnyddio'u medrau digidol. Mae disgyblion iau yn cymhwyso'u medrau digidol ar lefel briodol at ystod gyfyngedig o ddibenion. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio meddalwedd ganghennog yn dda i greu heriau bwyta'n iach. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu eu medrau digidol yn briodol i ymestyn eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, nid ydynt yn creu cronfeydd data a thaenlenni yn hyderus nac yn casglu gwybodaeth o ddata â digon o ddealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl priodol o dan gyfarwyddyd oedolion. Mae disgyblion meithrin yn defnyddio'r amgylchedd i fynegi eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol. Er enghraifft, wrth adeiladu tŵr o flociau a thrafod pa un yw'r talaf, maent yn cyfrif y blociau i weld a ydynt yn gywir. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn cael cyfle i gymhwyso'u medrau meddwl a datrys problemau yn rheolaidd.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau creadigol. Mae disgyblion iau yn cymryd rhan mewn dawnsio gwerin, ac mae disgyblion Blwyddyn 2 wedi astudio a chopïo gwaith Andy Warhol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio pastelau a dyfrlliwiau yn dda wrth beintio blodau yn arddull yr arlunydd, Georgia O'Keefe. Mae mwyafrif o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn mynegi eu hunain yn dda trwy gyfrwng y celfyddydau mynegiannol trwy astudio gwaith arlunwyr amrywiol, gan gynnwys y rhai sydd â dimensiwn Cymreig, fel Gareth Jones.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel a saff ac yn rhydd rhag unrhyw broblemau bwlio. Maent yn garedig ac yn barchus at oedolion ac at ei gilydd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig yn eu dysgu ac yn cydweithio â’u cyfoedion yn effeithiol. Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth a phan fyddant yn symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth emosiynol arnynt, ac yn gwneud defnydd priodol o ap i fynegi eu teimladau.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn deall buddion ffordd iach o fyw ac yn gwybod sut i wneud dewisiadau iach o ran diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol. Maent yn gwybod sut i’w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein ac yn siarad yn wybodus am beidio â rhannu gwybodaeth bersonol neu gyfrineiriau.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Mae lleiafrif o’r grwpiau arwain hyn yn dechrau cael dylanwad ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae’r Gôl-geidwaid Byd-eang wedi hyrwyddo’r defnydd o ffynnon ddŵr ac wedi bod yn allweddol yn annog eu ffrindiau i gymryd rhan mewn her cerdded i’r ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau dangos dealltwriaeth o’u rôl o fewn y gymuned fel dinasyddion byd-eang. Fodd bynnag, mae gor-gyfarwyddo gan staff yn atal disgyblion rhag datblygu eu medrau arwain yn ddigon da.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â phrofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd yn frwdfrydig. Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn ymroi i dasgau, gan eu cwblhau yn fedrus. Mae tua hanner y disgyblion yn cynnal eu gallu i ganolbwyntio ar dasgau ac nid ydynt yn gadael i bethau dynnu eu sylw. Maent yn dyfalbarhau neu’n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio’n effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau bach ac yn awyddus i rannu a thrafod eu syniadau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn trafod cyfyng-gyngor moesol am ddiogelwch personol a chamddefnyddio cyffuriau. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion hŷn yn dangos gwydnwch yn yr holl dasgau yn gyson.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau dylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, ac yn rhoi eu barn ar benderfyniadau a allai effeithio arnynt. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb i adborth gan oedolion a’u cyfoedion. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyfle, ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o sut i werthuso’u gwaith yn effeithiol, ac o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gwybod sut i wella’u gwaith yn ddigon da.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu’n dda fel dinasyddion sy’n foesegol wybodus. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau codi arian ar gyfer elusennau fel cefnogi apêl Wcráin. Maent yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o’r gwerthoedd sy’n ategu rheolau’r ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall dibenion rheolau, gwobrau a chosbau yn yr ysgol, ac yn y gymdeithas ehangach. Maent yn dysgu am hawliau plant, yn dangos parch at amrywiaeth ac yn

gwerthfawrogi cydraddoldeb. Maent yn deall sut dylid trin pawb, ni waeth beth yw eu hiaith, eu diwylliant neu'u credoau.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu gweledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae lleiafrif o staff yn dechrau ymgymryd â dysgu proffesiynol wedi'i arwain gan ysgolion partner lleol, sydd wedi'i gynllunio i gefnogi'r broses i gyd-greu cwricwlwm eang a chytbwys. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu hyn ac nid yw pob un o'r athrawon wedi elwa ar y sesiynau hyn ar hyn o bryd.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu trwy themâu, ac mae'r themâu hyn, ynghyd ag ychydig o adnoddau sefydledig, yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer dysgu cynlluniedig. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm yn adeiladu'n ddigon da ar yr hyn y mae disgyblion wedi'i ddysgu o'r blaen, ac o ganlyniad, nid yw'n datblygu gwybodaeth, medrau na phrofiadau disgyblion yn ddigon effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Ymestynnir y cwricwlwm gan ystod gynyddol o ymweliadau a phrofiadau bywyd go iawn. Er enghraifft, mae gan ddisgyblion hŷn randir yn y gymuned lle maent yn tyfu llysiau. Mae staff yn trefnu i ddisgyblion ymweld â Chronfa Ddŵr Dyffryn y Swistir, Parc Gwledig Pen-bre a Chastell Penfro, er enghraifft, i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r ardal ac o'r gorffennol. Yn sgil ymweliad gan bencampwr athletau yn ddiweddar, galluogwyd staff i ddatblygu ystod ddiddorol o weithgareddau dysgu pwrpasol i ddatblygu medrau llafaredd a medrau corfforol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn raddol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwella ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn ddigon da.

Mae athrawon yn darparu ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ymweld â Llyn y Fan Fach yn rheolaidd ac mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygiad strwythuredig medrau llafaredd Cymraeg disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn datblygu eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailsefydlu cynlluniau i ddatblygu ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol, er bod cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhif disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn llai datblygedig.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau digidol disgyblion iau yn briodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn datblygu medrau digidol disgyblion hŷn yn ddigon da nac yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio â hyder wrth weithio â dyfeisiau a meddalwedd.

Mae gan athrawon a staff cymorth berthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion, ac mae'r rhan fwyaf o staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mewn lleiafrif o sesiynau, mae athrawon yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn eu cynnwys yn

eu dysgu. Mae athrawon yn nosbarthiadau'r disgyblion iau yn cynllunio ystod werthfawr o weithgareddau i gefnogi dysgu dan do ac yn yr amgylchedd dysgu awyr agored. Mae'r gwersi hyn yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ar gyfer dysgu'n annibynnol a dysgu cydweithredol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio holi effeithiol yn fedrus i helpu symud y dysgu ymlaen, ac maent yn gweddu dysgu'n dda i alluoedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn nosbarthiadau disgyblion hŷn bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r amgylchedd awyr agored helaeth i gefnogi dysgu.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn amrywio gormod ac mae mwyafrif o sesiynau wedi'u nodweddu gan ddisgwyliadau isel o beth y gall disgyblion ei gyflawni, a faint. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynllunio gormod o dasgau lefel isel, sy'n llenwi amser ac yn gwneud ychydig iawn i gymell disgyblion neu'u symud ymlaen yn eu dysgu. Mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, mae athrawon yn strwythuro sesiynau ac yn rhoi gormod o arweiniad i'r dysgu, gan achosi i ddisgyblion fod yn or-ddibynnol ar gyfarwyddiadau a chymorth gan oedolion. Nid ydynt yn holi'n ddigon da i ymestyn meddwl disgyblion neu wirio dealltwriaeth. Nid yw athrawon yn herio disgyblion yn gyson, sy'n atal disgyblion rhag gwneud y cynnydd y maent yn abl i'w wneud. Ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn addasu gweithgareddau'n ddigon da i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion.

Nid yw'r adborth i ddisgyblion yn ddigon buddiol. Nid yw staff yn gweithredu dulliau asesu'n gyson i gynorthwyo disgyblion ar draws yr ysgol. Nid yw athrawon yn ymgysylltu'n ddigon da â dysgu disgyblion i allu nodi a chywiro camdybiaethau a chynnig ffyrdd ymlaen. O ganlyniad, nid oes gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o b'un a ydynt wedi cwblhau tasgau'n llwyddiannus neu beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn darparu cymuned ofalgar ac amgylchedd dysgu diogel ar gyfer disgyblion a staff. Mae'n sicrhau bod iechyd a lles disgyblion yn flaenoriaeth barhaus. Mae staff yn hyrwyddo iechyd emosiynol disgyblion yn llwyddiannus, gan ddatblygu ymdeimlad o berthyn a mwynhad i bawb. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r profiadau a'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan yr ysgol.

Caiff y ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt ei harwain a'i rheoli'n effeithiol. Mae'r cydlynydd ADY yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'r diwygio cenedlaethol ac wedi sicrhau newid esmwyth a gwybodus i systemau newydd. Mae'r ysgol yn ymestyn agweddau ar ei harfer dda ar gyfer darpariaeth ADY i'r holl ddisgyblion trwy ddyfeisio proffil un dudalen bwrpasol ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol. Mae'r proffiliau defnyddiol hyn yn amlinellu eu diddordebau, sut hoffent gael eu cynorthwyo i ddysgu, a'u targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, er bod yr ysgol wedi dechrau olrhain cynnydd disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, nid oes ganddi ddarlun digon clir o'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion ar draws yr ysgol sy'n derbyn cymorth ychwanegol â'u dysgu.

Mae staff yn cyflwyno cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY trwy raglenni cymorth a lles penodol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Yn gyffredinol, mae staff yn tueddu i or-gyfarwyddo disgyblion ar draws yr ysgol, gan gynnwys disgyblion ag ADY, yn ystod gweithgareddau. Mae hyn yn eu hatal rhag

cymryd perchnogaeth o'u dysgu a datblygu medrau ehangach, fel gwydnwch a'r gallu i weithio'n annibynnol. At ei gilydd, nid yw'r ddarpariaeth gyffredinol o fewn gwersi yn cynorthwyo disgyblion â gwahanol alluoedd i wneud y cynnydd y gallant ei wneud.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau a gwerthoedd fel amrywiaeth, cynhwysiant a thegwch. Mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i fod yn barchus, yn oddefgar ac yn empathig, er enghraifft. Mae staff yn hyrwyddo cydweithrediad, sy'n cael ei atgyfnerthu gan ddisgwyliadau ysgol gyfan o oddefgarwch ac ystyriaeth, ac yn disgwyl ymddygiad sy'n gymdeithasol gyfrifol gan ddisgyblion. Maent yn ymgysylltu'n briodol â digwyddiadau codi arian lleol a chenedlaethol i ddarparu cyd-destun dilys i ddisgyblion ddatblygu eu gwerthoedd a'u dealltwriaeth o anghenion pobl eraill. Yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn, mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt ofyn ac archwilio cwestiynau sylfaenol ac ystyried safbwyntiau am rywedd, hil a'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir.

Mae addoli ar y cyd yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu credoau a'u dealltwriaeth ysbrydol. Mae athrawon yn annog disgyblion i ystyried eu cyfrifoldeb i'w gilydd a'r gymuned ehangach.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau i helpu disgyblion i ddatblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'u hunaniaeth, eu treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae cyfleoedd i archwilio'r ardal leol ac ymweliadau â lleoedd cyfagos o ddiddordeb yn ysbrydoli disgyblion, ond nid ydynt yn rhan o arlwy cwricwlwm cydlynus sy'n datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth dros gyfnod. Nid yw'r ysgol yn darparu cyfleoedd digon ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddinasyddion gweithredol, er enghraifft trwy gyfrannu at ffurfio bywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhagweithiol o ran cefnogi presenoldeb da ac yn parhau i weithio'n galed i annog presenoldeb rheolaidd gan yr holl ddisgyblion.

At ei gilydd, mae diwylliant diogelu'r ysgol yn briodol, ac mae staff wedi ymrwymo i gadw dysgwyr yn ddiogel trwy'r ethos y maent yn ei hyrwyddo. Fodd bynnag, daethpwyd â phroblem ddiogelu i sylw'r tîm yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos yn yr ysgol lle rhoddir blaenoriaeth i les disgyblion a staff. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol, ac yn gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion.

Er bod arweinwyr wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol yn ddiweddar i sefydlu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol a mynd i'r afael â materion allweddol ar gyfer gwella, nid oes gweledigaeth strategol ddigon clir ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu sy'n cael ei deall gan bob aelod o staff. Mae hyn yn rhwystro gallu'r ysgol i wneud cynnydd mewn llawer o feysydd pwysig, fel mynd i'r afael ag ansawdd amrywiol yr addysgu a chael fframwaith graddol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Mae hyn wedi effeithio'n negyddol ar gynnydd mwyafrif o ddisgyblion. Mewn ychydig o feysydd pwysig, ceir arwyddion cynnar o welliant, ond nid yw arweinwyr yr ysgol wedi datblygu diwylliant o welliant cynaledig dros gyfnod.

Mae arweinwyr yn mynd i’r afael â’r diwygio cenedlaethol o ran ADY yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol eraill, fel gwella medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a medrau Cymraeg disgyblion, yn ddigon da.

Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi sefydlu rhaglen addas o weithgareddau i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys teithiau dysgu, craffu ar dystiolaeth a gwrando ar ddysgwyr. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth fonitro yn ddigonol i werthuso cynnydd. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddarlun digon clir o ansawdd yr addysgu a’r effaith ar gynnydd disgyblion o ran datblygu a chymhwyso gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i’r ysgol, ar y cyfan. Mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol ag uwch arweinwyr, staff a rhieni ac ymwybyddiaeth addas o flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn rheoli’r gyllideb yn effeithlon ac yn gwybod sut mae arweinwyr yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion i gynorthwyo disgyblion bregus â’u lles, yn ogystal â’u cynnydd cyffredinol mewn medrau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn monitro’r effaith a gaiff gwariant grantiau ar y disgyblion hyn yn ddigonol, ac o ganlyniad, maent yn aneglur ynghylch a yw’r camau a gymerwyd yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da. Yn ychwanegol, megis dechrau datblygu y mae medrau a dealltwriaeth llywodraethwyr. Dros gyfnod, maent wedi dibynnu’n ormodol ar safbwyntiau arweinwyr a gwybodaeth a ddarparwyd am yr ysgol, nad ydynt bob amser yn gywir. Mae hyn yn golygu na allant herio’r ysgol yn ddigon cadarn ac nid ydynt yn ymwybodol o’r gwir ddarlun o gynnydd disgyblion na phroblemau ag ansawdd yr addysgu.

Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi dechrau sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad yn fwy cadarn, a gweithgareddau datblygu staff yn cysylltu’n briodol â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio’r dystiolaeth o weithgareddau hunanwerthuso yn ddigon da i herio unrhyw danberfformio mewn addysgu yn drylwyr neu i wella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn dechrau datblygu diwylliant o ddysgu proffesiynol, gyda’r rhan fwyaf o staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant yn gysylltiedig â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Er enghraifft, mae dysgu proffesiynol diweddar wedi arwain at wybodaeth ac arferion gwell gan athrawon i ddatblygu medrau disgyblion yn yr amgylchedd dysgu awyr agored. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae cyfleoedd i staff arsylwi a rhannu arfer dda yn yr ysgol ac ar draws y rhanbarth yn gyfyngedig. Nid yw uwch arweinwyr wedi cael digon o amser na datblygiad proffesiynol targedig i alluogi staff i gynnal gwelliannau ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd cryf â rhieni, sy’n gwerthfawrogi ymagwedd yr ysgol at groesawu eu safbwyntiau a’u pryderon. Mae staff yn delio’n arbennig o dda â disgyblion bregus ac yn rhoi arweiniad a chymorth buddiol iddyn nhw a’u teuluoedd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- hold a meeting with parents/carers to hear their views on the school and its effectiveness
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/05/2023